**Annwyl rieni/gwarchodwyr,**

Wrth i ni agosáu at berfformiadau'r sioe *Mari Poppins*, hoffem rannu trefniadau'r wythnos er mwyn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth ac yn ddiogel i'n disgyblion.

**Dilynwch yr amserlen benodol ar gyfer dosbarth eich plentyn**, gan fod trefniadau'n amrywio yn ôl yr amseroedd ymarfer yn y neuadd goffa.

| Diwrnod | Pwy yn y neuadd? | Trefniadau cinio |
|---|---|---|
| Dydd Mercher – 25/6/25 | Dim ond Bl. 5 a 6 am y dydd | Pecyn bwyd i Bl. 5 a 6 |
| Dydd Iau – 26/6/25 | Blwyddyn 5 a 6 am y dydd, | Pecyn bwyd |
| | Bl. 3 a 4 yn y prynhawn | Cinio yn yr ysgol yn gyntaf |
| Dydd Gwener – 27/6/25 | Bl. 3 – 6 | Pecyn bwyd |
| | Bl. 2 | Cinio yn yr ysgol yna'r Neuadd Goffa |
| | Derbyn / Bl.1 | Bore yn y neuadd, nol i ginio |
| Dydd Llun – 30/6/25 **YMARFER GWISGOEDD LLAWN** (bydd y gwisgoedd i gyd yn yr ysgol yn barod) | Bl. 2 - 6 | Pecyn bwyd |
| | Derbyn a Bl.1 | Bws draw i'r neuadd am 12:30 ar ôl cinio |

**<u>Trefniadau Ymarferion yn y Neuadd Goffa:</u>**

- Os yw eich plentyn yn y neuadd am y diwrnod cyfan, bydd angen:
  - Pecyn bwyd
  - Potel ddŵr
- Os yw eich plentyn yn y neuadd am hanner diwrnod:
  - Byddant yn cael cinio cyn mynd draw neu ar ôl dychwelyd, yn dibynnu ar amser eu sesiwn – gweler amserlen uchod

**<u>Gofynnwn yn garedig i rieni wneud y trefniadau canlynol:</u>**

- Os yw eich plentyn yn y neuadd yn y bore, dewch â nhw'n syth i Neuadd Goffa Porth Tywyn yn y bore erbyn 9:00yb.
- Os yw eich plentyn yn y neuadd yn y prynhawn, casglwch nhw am 3:00yp o'r neuadd, **gan ganiatáu amser i gasglu unrhyw blant eraill o'r ysgol ar yr amser arferol.**

- Os oes rhaid i'ch plentyn fynychu'r Clwb Brecwast, byddant yn cerdded i'r neuadd gydag aelod o staff erbyn 9:00yb. Fodd bynnag, os yw eich plentyn yn arfer mynd i'r Clwb Brecwast ond bod eich sefyllfa deuluol yn caniatáu i chi fynd â'ch plentyn yn syth i'r neuadd, gofynnwn yn garedig i chi wneud hyn os gwelwch yn dda er mwyn lleihau nifer y disgyblion sy'n cerdded gyda staff.

- Os yw eich plentyn yn mynychu'r Clwb ar ôl ysgol, byddant yn cerdded yn ôl i'r ysgol gydag aelod o staff ar ôl yr ymarferion.

- Gall y disgyblion ddod ag adnoddau tawel i'w cadw'n brysur, megis llyfr lliwio neu lyfr darllen, gan y byddant yn eistedd am gyfnodau yn ystod yr ymarferion. Nid yw dyfeisiau electronig yn cael eu caniatáu.

Diolch am eich cydweithrediad parhaus. Rydym yn edrych ymlaen at ddigwyddiad llawn talent ac egni, ac yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth wrth i ni baratoi at berfformiadau'r sioe arbennig hon.

Yn gywir,

*Mrs. E. Zych*

**Dear parents/guardians,**

As we approach the performances of the *Mary Poppins* show, we would like to share the arrangements for the week to ensure that everything runs smoothly and safely for our pupils.

Please follow the specific timetable for your child's class, as arrangements vary depending on the rehearsal times in the memorial hall.

| Day | Who is in the Memorial Hall? | Lunch Arrangements |
|---|---|---|
| Wednesday – 25/6/25 | Only Yr.5 & 6 for the day | Lunch box - Yrs 5 a 6 |
| Thursday – 26/6/25 | Yr.5 & 6 for the day | Lunch box |
| | Yrs. 3 a 4 in the afternoon | Lunch at school |
| Friday – 27/6/25 | Yrs 3 – 6 | Lunch box |
| | Yr. 2 | Lunch at school then walk to hall |
| | Reception / Yr.1 | Bus to the hall, back in school for lunch |
| Monday – 30/6/25<br>**FULL DRESS REHEARSAL**<br>(all clothes will be present at school) | Yrs 2 - 6 | Lunch box |
| | Reception / Yr.1 | Bus to the hall at 12:30 after lunch |

**Rehearsal Arrangements at the Memorial Hall:**

- If your child is in the hall for the whole day, they will need:
  - A packed lunch
  - Water bottle
- If your child is in the hall for half a day:
  - They will have lunch either before going or after returning, depending on the time of their session – please refer to the timetable above.

**We kindly ask parents to follow the arrangements below:**

- If your child is in the hall in the morning, please take them directly to the Memorial Hall in the morning by 9:00am.
- If your child is in the hall in the afternoon, please collect them from the hall at 3:00pm, **allowing enough time to collect other children from school at the usual time.**
- If your child needs to attend the Breakfast Club, they will walk to the hall with a member of staff by 9:00am. However, if your child normally attends the Breakfast Club but your family circumstances allow you to take them directly to the hall, we kindly ask that you do so, in order to reduce the number of pupils walking with staff.
- If your child attends the After School Club, they will walk back to school with a member of staff after rehearsals.
- Pupils may bring quiet activities to keep them busy, such as a colouring book or reading book, as they will be sitting for periods during rehearsals. No electronic devices are allowed.

Thank you for your continued cooperation. We are looking forward to an event full of talent and energy, and we truly appreciate your support as we prepare for this special school production.

Yours sincerely,

*Mrs. E. Zych*